# Croeso

Pleser yw eich croesawu i Wasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru, y gwasanaeth sy'n darparu swyddogaethau cyfieithu i Weinidogion Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru. Wrth ymuno â'r Llywodraeth, cewch gyfle i weithio mewn cangen sy'n allweddol i gefnogi'r Llywodraeth i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac â gofynion y Rheolau Sefydlog, ac i roi'r iaith ar waith mewn sefydliad sy'n gwasanaethu pobl Cymru ac yn gwneud gwahaniaeth i'w bywyd bob dydd.

Wrth ymuno â'r Gwasanaeth Cyfieithu, byddwch hefyd yn dod yn aelod o wasanaeth sifil Llywodraeth Cymru, ac yn un o'r miloedd o weision yn y sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n gwasanaethu eu cyd-Gymry. Byddwch hefyd yn aelod o'r proffesiwn cyfieithu yn y Llywodraeth ac yn gweithio mewn tîm sy'n cefnogi ac yn hybu datblygiad y proffesiwn cyfieithu o fewn y Llywodraeth ac yn ehangach.

Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu yn un o wasanaethau corfforaethol craidd y Llywodraeth sy'n cyflenwi gwasanaeth hanfodol er mwyn cefnogi busnes y Llywodraeth a blaenoriaethau'r Gweinidogion. O ran strwythur, mae'n perthyn i'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol o dan gyfarwyddiaeth xxxx. Mae'r adran yn un o nifer sy'n perthyn i Swyddfa'r Ysgrifennydd Parhaol, sef pennaeth y gwasanaeth sifil yn Llywodraeth Cymru.

Ers blynyddoedd bellach bu'r Gwasanaeth yn cynnig cyfle i gyfieithwyr weithio ledled Cymru, gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i gyflogi cyfieithwyr a swyddogion busnes i weithio ar stepen eu drws o bum swyddfa ym mhob cwr o'r wlad. Ac yn sgil y tro ar fyd a ddigwyddodd yn 2020, datblygodd y gweithio o swyddfeydd ar wasgar yn weithio gartre, a phob aelod o'r tîm yn defnyddio'r dechnoleg i ddarparu gwasanaethau yn hyblyg o'u cartrefi ac i wasanaethu Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod clo. Bydd y ffordd newydd hon o weithio drwy ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf yn sicr yn gynsail ac yn braenaru'r tir ar gyfer ein patrwm gwaith yn y blynyddoedd i ddod.

Croeso i'n plith! Ein dymuniad yw y byddwch un ac oll yn setlo'n dda yn y Gwasanaeth Cyfieithu. Gobeithio y cewch flas ar y gwaith a chyfle i fwynhau gyrfa lewyrchus fel cyfieithydd a gwas sifil yn Llywodraeth Cymru.

Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu
Medi 2021

# Rhagair

Bwriad y pecyn hwn yw cyflwyno ichi rywfaint o'r wybodaeth sylfaenol am y Gwasanaeth Cyfieithu y bydd ei hangen arnoch yn ystod eich wythnosau cyntaf. Fe'i bwriadwyd i ategu'r rhaglen hyfforddiant a'r cyngor a gewch gan eich rheolwyr a'ch cydweithwyr.

Bydd y pecyn hefyd yn ffurfio rhyw fath o lawlyfr desg y gallwch ei ddefnyddio wrth ichi fynd ati i wneud eich gwaith o ddydd i ddydd. Gallwch wneud nodiadau ynddo, ychwanegu unrhyw daflenni gwybodaeth eraill a chynnwys diweddariadau pan newidir y cynnwys. O bryd i'w gilydd, byddwn yn gofyn ichi argraffu rhai negeseuon/ffeiliau a gewch drwy'r e-bost a'u cadw mewn man priodol yn eich ffeil.

Mae ein cwsmeriaid wedi dod i arfer â chael gwasanaethau o safon uchel gan y Gwasanaeth Cyfieithu. Ac er mwyn i hynny barhau, mae gofyn i bob un ddeall ein ffordd o weithio a dilyn trefn sy'n gyson ledled y gangen. Neilltuwch amser, felly, i ddarllen y pecyn hwn er mwyn ymgynefino â chyd-destun eich gwaith ac ymgyfarwyddo â systemau gwaith y Gwasanaeth. Ac os bydd angen eglurhad ar ambell beth, bydd eich cydweithwyr yn fwy na pharod i'ch helpu!